**CYFARFOD Y COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL I GYMRU A GYNHALIWYD AR 27 MAWRTH 2018 YN NHŶ HASTINGS**

**Yn bresennol:** Mr Owen Watkin (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling; Mr David Powell; Mrs Julie May a Mr Theodore Joloza.

**Swyddogion y CFfDLG a oedd yn bresennol:** Mr Steve Halsall (Prif Weithredwr); Mr Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr David Burley (Rheolwr Cymorth Busnes); Mr Ross Evans (Swyddog Arolygon); Mrs Cher Cooke (Swyddog Arolygon); Mr Daniel Mosley (Swyddog Arolygon); Mr Tom Jenkins (Swyddog Arolygon); Mr Farhan Khan (Swyddog Arolygon); Mrs Caroline Redmond (Cynorthwy-ydd Swyddfa)

**Amser Dechrau:** 12:30
**Amser Gorffen:** 15:50

**Ymddiheuriadau:** Ni wnaed unrhyw ymddiheuriadau.

## 1. Datgan Buddiannau

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau o Fuddiannau.

## 2. Brîff gan y Cadeirydd

2.1. Rhoddodd y Cadeirydd wybodaeth i'r Comisiwn am gynigion Llywodraeth Cymru, a gynhwysir yn yr adroddiad “Cyflawni gyda'n Gilydd” (Hydref 2017), ar gyfer diwygio'r trefniadau rhwng y llywodraeth a Chyrff Hyd Braich, a ddatgelwyd mewn gweithdy a gynhaliwyd ar 15 Mawrth, yr oedd y Prif Weithredwr a'r Cadeirydd yn bresennol ynddo.

2.2. Rhoddodd y Cadeirydd wybodaeth i'r Comisiwn am ddatblygiadau yn ymwneud â'r Papur Gwyrdd, “Cryfhau Llywodraeth Leol : Cyflawni dros Ein Pobl” (20 Mawrth 2018), a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus; bydd papur yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Comisiwn yn y dyfodol i benderfynu ar ymagwedd y Comisiwn.

## 3. Cofnodion Cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2018

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2018 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

3.2. Nodwyd, mewn perthynas â Chofnod 9.3, y dylai'r enw ar etholaeth Pont-y-pŵl/Pont-y-moel yn Nhorfaen gael ei gyfeirio at Gomisiynydd y Gymraeg.

## 4. Materion yn Codi

4.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 19 Mawrth 2018 ar Faterion yn Codi gan y Prif Weithredwr.

4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn ei gyfanrwydd, gan nodi materion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a rhoddwyd diweddariad ar gynnydd mewn perthynas â'r materion canlynol hefyd:

- **(Mater 1) Dyfarniad Iechyd Gweithle Bach** – mae cynnydd yn parhau tuag at ymgeisio am y dyfarniad hwn.
- **(Mater 3) Llety** – mae trafodaethau ynglŷn â phrydles Tŷ Hastings yn parhau; roedd rhent wedi cael ei dalu i'r prydleswr ar sail y brydles bresennol.
- **(Mater 4) Llety** – mae'r gwaith ailaddurno wedi cael ei gwblhau, a bwriedir i'r goleuadau ddechrau cael eu newid yr wythnos hon, yn amodol ar gymeradwyaeth gan y landlord.
- **(Mater 6) Polisïau Adnoddau Dynol** – mae'r polisïau Adnoddau Dynol yn parhau i gael eu diweddaru.
- **(Mater 9) Buddsoddwr Mewn Pobl** – disgwylir i'r ailasesiad gael ei gynnal yn yr haf, a bydd paratoadau'n dechrau ar gyfer hyn.

## 5. Arolwg Etholiadol Sir Benfro

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 19 Mawrth 2018 gan y Swyddog Arolygon.

5.2. **Cytunodd** y Comisiwn ar Opsiwn 5 ar gyfer ardal Maenclochog, sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Boncath a Chlydau, Cilgerran ac Eglwyswrw, Crymych a Mynachlog-ddu, Llanddewi Efelffre, Maenclochog, Gorllewin Llandissilio a Chlunderwen, Rudbaxton, Llandudoch, a Chas-wis.

Cefnogwyd y penderfyniad am y rhesymau canlynol:

- Gwella cydraddoldeb etholiadol
- Cyflawni'r nod o ran maint cynghorau
- Dim rhannu cymunedau
- Dim wardiau aml-aelod

5.3. **Cytunodd** y Comisiwn ar Opsiwn 2 ar gyfer ardal Camros/Llanisan-yn-Rhos, sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Camros, Johnston, Llanisan-yn-Rhos, a The Havens.

Cefnogwyd y penderfyniad am y rhesymau canlynol:

- Gwella cydraddoldeb etholiadol
- Cyflawni'r nod o ran maint cynghorau
- Dim rhannu cymunedau
- Dim wardiau aml-aelod

5.4. **Cytunodd** y Comisiwn ar Opsiwn 1 ar gyfer ardal Hwlffordd, sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Hwlffordd: Castell, Hwlffordd: Garth, Hwlffordd: Portfield, Hwlffordd: Prendergast, a Hwlffordd: Priordy

Cefnogwyd y penderfyniad am y rhesymau canlynol:

- Cynnal y trefniadau presennol
- Cyflawni'r nod o ran maint cynghorau
- Dim rhannu cymunedau
- Dim wardiau aml-aelod

5.5. **Cytunodd** y Comisiwn ar Opsiwn 1 ar gyfer ardal Aberdaugleddau, sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Milffwrd: Canol, Milffwrd: Dwyrain, Milffwrd: Hakin, Milffwrd: Hubberston, Milffwrd: Gogledd, a Milffwrd: Gorllewin
Diwygiwch y canlynol fel yr uchod

Cefnogwyd y penderfyniad am y rhesymau canlynol:

- Gwella cydraddoldeb etholiadol
- Cyflawni'r nod o ran maint cynghorau
- Dim rhannu cymunedau
- Dim wardiau aml-aelod

5.6. **Cytunodd** y Comisiwn ar Opsiwn 1 ar gyfer ardal Doc Penfro, sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Doc Penfro: Bush, Doc Penfro: Canol, Doc Penfro: Marchnad, Doc Penfro: Dwyrain Pennar a Doc Penfro: Gorllewin Pennar

Cefnogwyd y penderfyniad am y rhesymau canlynol:

- Gwella cydraddoldeb etholiadol

- Cyflawni'r nod o ran maint cynghorau
- Dim rhannu cymunedau
- Dim wardiau aml-aelod

5.7. **Cytunodd** y Comisiwn ar Opsiwn 2 ar gyfer ardal Penfro, sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Penfro: Monkton a Santes Fair De, Penfro: Santes Fair Gogledd, Penfro: Sant Mihangel

Cefnogwyd y penderfyniad am y rhesymau canlynol:
- Gwella cydraddoldeb etholiadol
- Cyflawni'r nod o ran maint cynghorau
- Dim rhannu cymunedau

5.8. **Cytunodd** y Comisiwn ar Opsiwn 2 ar gyfer ardal St Florence, sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Maenorbŷr a Phenalun, a St Florence a St Mary Out Liberty

Cefnogwyd y penderfyniad am y rhesymau canlynol:
- Cyflawni'r nod o ran maint cynghorau
- Dim rhannu cymunedau
- Dim wardiau aml-aelod

Nododd y Comisiwn y dylai'r adroddiad gyflwyno'r dewis amgen ar gyfer yr ardal hon i ganiatáu ymgynghori ar y ddau opsiwn.

5.9. **Cytunodd** y Comisiwn ar Opsiwn 2 ar gyfer adran etholiadol Dwyrain Williamston, sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Caeriw a Jeffreyston, a Dwyrain Williamston

Cefnogwyd y penderfyniad am y rhesymau canlynol:
- Gwella cydraddoldeb etholiadol
- Cyflawni'r nod o ran maint cynghorau
- Dim rhannu cymunedau
- Dim wardiau aml-aelod

5.10. **Cytunodd** y Comisiwn ar Opsiwn 1 ar gyfer Saundersfoot, sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Gogledd Saundersfoot gydag Amroth, a De Saundersfoot

Cefnogwyd y penderfyniad am y rhesymau canlynol:

- Gwella cydraddoldeb etholiadol
- Cyflawni'r nod o ran maint cynghorau
- Dim wardiau aml-aelod

5.11. **Cytunodd** y Comisiwn ar Opsiwn 1 diwygiedig ar gyfer ardal Sir Benfro (Gogledd) sy'n weddill, sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Abergwaun, Wdig, Treletert, Llanrhian, Trefdraeth gyda Dinas Cross, Solfach, a Thyddewi

Cefnogwyd y penderfyniad am y rhesymau canlynol:

- Gwella cydraddoldeb etholiadol
- Cyflawni'r nod o ran maint cynghorau
- Dim rhannu cymunedau

5.12. **Cytunodd** y Comisiwn ar Opsiwn 1 ar gyfer ardal Sir Benfro (De) sy'n weddill, sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Burton, Hundleton, Cilgeti a Begeli, Llandyfái, Llangwm, Martletey, Pont Fadlen, Arberth: Trefol, Arberth: Gwledig, Neyland: Dwyrain, Neyland: Gorllewin, Dinbych-y-pysgod: Gogledd, a Dinbych-y-pysgod: De.

Cefnogwyd y penderfyniad am y rhesymau canlynol:

- Cynnal y trefniadau presennol
- Gwella cydraddoldeb etholiadol
- Cyflawni'r nod o ran maint cynghorau
- Dim rhannu cymunedau o'r newydd
- Dim wardiau aml-aelod

5.13. Anfonir yr enwau arfaethedig at Gomisiynydd y Gymraeg i wneud sylwadau arnynt cyn i'r Adroddiad Cynigion Drafft gael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Comisiwn.

## 6. Rheoli Risg – Cofrestr Risg

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 14 Mawrth 2018 gan y Rheolwr Cyllid.

6.2. O ystyried yr oedi parhaus wrth gytuno ar y brydles newydd yn ffurfiol gyda'r landlord, **Cytunodd** y Comisiwn y dylai cam lliniarol newydd gael ei

ychwanegu at risg CR7, yn awdurdodi'r Ysgrifenyddiaeth i bwyso ar y prisiwr i gwblhau'r trafodaethau â'r landlord cyn gynted â phosibl.

6.3. Roedd y Comisiwn o'r farn y dylai risg newydd gael ei hychwanegu at y gofrestr risg i ymdrin ag effaith bosibl y bwriad i ailstrwythuro llywodraeth leol ar arolygon etholiadol a chynlluniau'r Comisiwn ar gyfer y dyfodol. **Cytunwyd** y dylai risg CR8 newydd gael ei llunio a'i hychwanegu at y Gofrestr, i gynnwys risg i enw da'r Comisiwn trwy beidio â chadw at amserlen newydd, anallu i gynllunio o flaen llaw ac anawsterau ymgysylltu ag awdurdodau lleol ynglŷn ag arolygon cyfredol, ac y dylai'r risgiau gael eu lliniaru trwy gysylltu'n agos â'r Is-adran Noddi, casglu gwybodaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid i roi gwybod iddynt am ymagwedd y Comisiwn.

## 7. Adroddiad ar y Gyllideb

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 12 Mawrth 2018 gan y Rheolwr Cyllid.

7.2. Nododd a **Chytunodd** y Comisiwn fod hawl trosglwyddo arian rhwng categorïau'r gyllideb i fynd i'r afael â diffygion disgwyliedig. Nodwyd y tanwariant amcangyfrifedig ar gyfer y flwyddyn, a byddai'n cael ei gadarnhau yn yr adroddiad diwedd y flwyddyn yn y cyfarfod nesaf.

## 8. Prosiect Trawsnewid TGCh

8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 20 Mawrth 2018 gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

8.2. Nododd y Comisiwn yr adroddiad a'r diweddariad llafar.

## 9. Datganiad Llywodraethu Drafft

9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 28 Chwefror 2018 gan y Rheolwr Cyllid.

9.2. Nododd y Comisiwn yr adroddiad a **Chytuno** ar y datganiad ar ôl gwneud mân newidiadau.

## 10. Polisi Chwythu'r Chwiban

10.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 23 Ionawr 2018 gan y Rheolwr Cyllid.

10.2. Nododd y Comisiwn yr adroddiad a oedd yn cynnwys diwygiadau a gynigiwyd gan Archwilio Mewnol, a **Derbyniodd** y newidiadau.

10.3. **Penderfynodd** y Comisiwn fabwysiadu'r polisi diwygiedig.

## 11. Archwiliad y Ddraig Werdd

11.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 20 Mawrth 2018 gan y Tîm Cymorth.

11.2. **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad.

## 12. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon

12.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 19 Mawrth 2018 gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

12.2. **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad.

## 13. Cyflawni gyda'n Gilydd – Trefniadau Noddi

13.1. Ystyriwyd y wybodaeth a roddwyd gan y Prif Weithredwr ynglŷn â'r trefniadau noddi yn Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, a'r trefniadau ar gyfer ei Chyrff Noddi.

13.2. Roedd y diweddariad yn amlinellu'r cyfarfod diweddar a gynhaliwyd â Llywodraeth Cymru i roi gwybod i Gyrff Noddi am y newidiadau arfaethedig, a chyflwyno fforwm er mwyn i Brif Weithredwyr Cyrff Noddi gydweithio.

13.3. **Nododd** y Comisiwn y diweddariad llafar.

## 14. Calendr Digwyddiadau

14.1. Nododd y Comisiwn y calendr.

## 15. Unrhyw Fusnes Arall

15.1. Nid oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 24 Ebrill 2018**